Strategol a Gwella
7/2/14

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ministerial
Correspondence
Caxton House
Tothill Street
LONDON
SW1H 9DA

www.dwp.gov.uk/
cymraeg

ministers@dwp.gsi.gov.uk

Ein Cyf: TO/14/01427

Mr Eirian Roberts
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

22 Ionawr 2014

Annwyl Mr Roberts

Diolch i chi am eich gohebiaeth ddiweddar ynghylch diwygiadau i Fudd-dal Tai. Mae Gweinidogion y Llywodraeth yn derbyn nifer helaeth o ohebiaeth ac nid ydynt yn gallu ateb yn bersonol ar bob achlysur. Gofynnwyd i mi ymateb.

Mae staff yr awdurdod lleol yn gyfrifol am asesu'r help gyda rhent, a gallant egluro effaith y newidiadau. Gallant wneud Taliadau Tai Dewisol mewn rhai amgylchiadau i bobl y mae eu budd-dal yn brin o'u rhent. Mae taliad yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol.

Mae Gweinidogion o'r farn ei fod yn iawn i newid y trefniadau blaenorol, lle y gallai pobl sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol cael eu rhent eu talu yn llawn gan Fudd-dal Tai p'un a ydynt yn tan-feddiannu eu cartrefi neu beidio. Ystyriwyd hyn bellach yn anghynaladwy a chaiff Budd-dal Tai ar gyfer tenantiaid o oedran gweithio yn y sector rhentu cymdeithasol ei gyfyngu. Mae'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i bobl sy'n byw mewn eiddo sy'n rhy fawr ar gyfer eu hanghenion.

Heb ddiwygio disymwth, byddai'r bil Budd-dal Tai wedi rhagori ar £25 biliwn erbyn 2015. Teimlai'r Gweinidogion ei bod yn hanfodol gweithredu'n gyflym i ddod â'r sefyllfa o dan reolaeth. Fodd bynnag, yn ogystal â helpu i gyfyngu ar wariant Budd-dal Tai, dylai'r newid hwn annog symudedd o fewn y sector rhentu cymdeithasol, gan wneud gwell defnydd o'r tai cymdeithasol sydd ar gael.

Mae Gweinidogion o'r farn bod angen i ni wneud popeth sy'n bosibl i wella'r ffordd rydym yn defnyddio'r stoc dai cymdeithasol. Mae anghydweddu eang rhwng maint teuluoedd a maint y cartref. Mae budd-daliadau wedi bod yn rhoi cymhorthdal at bron i filiwn o ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer pobl sy'n tan-feddiannu eu llety, ar adeg pan mae dros chwarter miliwn o gartrefi yn byw mewn amodau gorlawn yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae gan Weinidogion strategaeth gynhwysfawr ar waith i gynyddu nifer y cartrefi newydd i'w rhentu. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi mwy o arian yn hyn. Bydd y strategaeth yn helpu cyflwyno hyd at 170,000 o gartrefi fforddiadwy erbyn 2015 i'w rhentu a pherchnogaeth fforddiadwy.

Wrth weithio allan maint yr eiddo at ddibenion Budd-dal Tai, mae'r meini prawf yn ystyried y nifer o bobl sy'n byw yn yr adeilad fel eu cartref, eu hoedran a chyfansoddiad yr aelwyd. Bydd newidiadau yn sefyllfa'r cartref yn dod i'r rym ar unwaith ac eithrio pan fydd perthynas sy'n byw yn y cartref yn marw. Yn yr achosion hyn, mae deddfwriaeth yn caniatáu cyfnod o 12 mis lle caiff y rhent fodloni yn llawn neu'n parhau i gael ei fodloni ar y lefel flaenorol.

Mae diwygio'r rheoliadau wedi egluro'r rheolau meini prawf maint ar gyfer dau grŵp penodol. Yn gyntaf, bydd pobl sy'n cael eu cymeradwyo'n gofalwyr maeth yn cael ystafell ychwanegol, lle bydd yr amodau yn cael eu bodloni. Yn ail, ni fydd y rheolau meini prawf maint yn gymwys ar gyfer ystafell a feddiannwyd fel arfer gan aelod o'r Lluoedd Arfog ar yr amod eu bod yn bwriadu dychwelyd adref. Mae Gweinidogion wedi cytuno ar drefniadau gwell drwy'r rheoliadau hyn sy'n rhoi'r amddiffyniadau hyn tu hwnt i amheuaeth. O ran pobl ag anableddau, mae'r penderfyniad a yw anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i denant gael ystafell wely ychwanegol yn fater i'r awdurdod lleol ei benderfynu, gyda chymorth canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran hon.

Mae Gweinidogion yn ymwybodol o'r effaith y gall y newidiadau eu cael ar rai grwpiau eraill. Maent eisoes wedi cyhoeddi £25 miliwn ychwanegol ar gyfer y gyllideb Taliadau Tai Dewisol o 2013/14, ond ar 30 Gorffennaf 2013 gwnaethant gyhoeddi cyllid pellach i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan y newidiadau Budd-dal Tai. Heblaw hynny, yn ei Ddatganiad yr Hydref ar 5 Rhagfyr 2013 cadarnhaodd y Canghellor £40 miliwn o wariant Taliadau Tai Dewisol ychwanegol yn 2014/15 a 2015/16. Mae canllawiau i awdurdodau lleol wedi pwysleisio bod Taliadau Tai Dewisol yn parhau i fod ar gael ar gyfer grwpiau blaenoriaeth, o bosibl gan gynnwys y bobl hynny y mae eu cartrefi wedi cael addasiadau anabledd sylweddol.

Mae'r symiau ychwanegol hyn yn dod ar ben y £190 miliwn a neilltuwyd eisoes dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant i helpu awdurdodau lleol gweithredu'r diwygiadau Budd-dal Tai, a oedd yn cynnwys £130 miliwn ychwanegol ar gyfer Taliadau Tai Dewisol. Mae swyddogion penderfyniadau lleol mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch blaenoriaethau ac anghenion cymharol a thargedu adnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol.

Mae Gweinidogion wedi gwneud ymrwymiad i fonitro'r diwygiad hwn yn ofalus, ac mae'r cyllid ychwanegol yn ffurfio rhan o hynny. Mae'r mesurau yn cael eu monitro a'u gwerthuso dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd y canfyddiadau cychwynnol ar gael cyn diwedd 2014 a bydd yr adroddiad terfynol ar gael yn hwyr yn 2015. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys ymchwil sylfaenol annibynnol ar raddfa-fach gydag ystod o awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol. Fel rhan o'r ymchwil, bydd swyddogion yn edrych ar faterion cyflenwi, ffactorau gwledig a phobl sy'n methu â rhannu ystafelloedd. Lle y bo'n bosibl, bydd hefyd yn ystyried amgylchiadau ariannol pobl, rhwydweithiau cymdeithasol a bywyd teuluol.

Fel rhan o'u rôl wrth asesu Budd-dal Tai, bydd staff yr awdurdod lleol yn gallu cynghori ar y symiau y gellir eu talu mewn achosion unigol.

Yr eiddoch yn gywir

Tîm Gohebiaeth Gweinidogol